

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Talygarn, Ysbyty'r Sir, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 5, 6 a 7 Chwefror 2024

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mai 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-992-7

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf.....	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Ysbyty'r Sir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyda'r nos ar 5 Chwefror ac ar y diwrnodau canlynol, sef 6 a 7 Chwefror 2024. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Talygarn - Derbyniadau Acíwt Iechyd Meddwl Oedolion.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion a'u gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Ni chwblhawyd holiadur gan unrhyw un o'r cleifion, ond gwnaethom siarad â chleifion yn ystod yr arolygiad. Cwblhawyd pum holiadur gan aelodau o'r staff, a gwnaethom hefyd siarad ag aelodau o'r staff yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Fel y nodwyd yn ein harolygiadau blaenorol, roedd cymysgedd o ystafelloedd sengl, ystafelloedd cysgu pedwar gwely ac ystafelloedd dau wely ar y ward o hyd. Gall yr ystafelloedd hyn a rennir effeithio ar breifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd y staff yn wybodus ac roedd camau diogelu a phrosesau effeithiol ar waith ganddynt i reoli'r heriau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gofal ag urddas. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu darpariaeth gofal iechyd meddwl fodern gan y gall ystafelloedd gwely a rennir effeithio ar breifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom fod y staff yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau gyda'r cleifion, ond mae diffyg cyllid yn atal rhai gweithgareddau allweddol rhag cael eu cynnal, er enghraifft ni ellir prynu'r cynhwysion ar gyfer therapiau coginio.

Prin oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos i helpu'r cleifion a'u teuluoedd neu eu gofalwyr i ddeall eu gofal. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod hyn oherwydd digwyddiad diweddar yn ymwneud â chlaf lle roedd y wybodaeth wedi cael ei thynnu.

Dyweddodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn barod i helpu ac yn eu trin yn dda. Gwelsom hefyd fod y cleifion yn cael eu cynnwys yn eu hadolygiadau aml-ddisgyblaethol misol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu gwybodaeth iechyd ar y ward i'r cleifion ac i ymwelwyr.
- Y cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ffocws clir ar adsefydlu a gofal sy'n canolbwyntio ar y claf wedi'i deilwra at yr unigolyn
- Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn eu trin yn dda.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau sefydledig ar waith i helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y staff yn cwblhau'r prosesau clinigol yn unol â'r gofynion.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn defnyddio sgiliau llonyddu effeithiol gyda'r cleifion, ac roedd yn amlwg bod y staff yn fedrus iawn yn y maes hwn.

Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn yr ysbyty. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach mewn perthynas â chynllunio gofal, glanhau ac archwiliadau amgylcheddol.

Mae angen gwneud gwelliannau pellach i amgylchedd y ward a thiroedd yr ysbyty er mwyn sicrhau ei fod yn fwy croesawgar i ymwelwyr a chleifion. Byddai rhoi mwy o ffocws ar gynnal amgylchedd glân a thaclus hefyd yn helpu i ddarparu gwell profiad i'r cleifion.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Roedd diffyg manylder yn y ddogfennaeth gofal a'r asesiadau risg ar gyfer rhai o'r cleifion, ac roedd angen i'r bwrdd iechyd weithredu ar unwaith mewn perthynas â'r mater hwn. Noder nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bod manylion llawn wedi'u cynnwys yn Atodiad B:

- Gwella'r prosesau archwilio er mwyn sicrhau bod cofnodion y cleifion yn gyflawn, yn gyfredol ac yn cael eu dilyn gan y staff
- Adolygu cofnodion pob claf er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennaeth cynllunio gofal wedi'i chwblhau'n llawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ailaddurno'r wardiau a'r ardaloedd cymunedol
- Mae angen gwella prosesau ymateb yr adran ystadau i faterion amgylcheddol
- Cynnal a chadw cyfleusterau'r ysbyty
- Gwella'r prosesau ar gyfer atal a rheoli heintiau
- Dogfennaeth cynllunio gofal
- Ymweliadau wyneb yn wyneb gan y Therapydd Lleferydd ac Iaith, yn hytrach nag ymgynghoriadau dros y ffôn
- Cynnig cymorth Seicoleg i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Proses gynhwysfawr a manwl ar gyfer cynllunio trefniadau rhyddhau

- Gwaith gweinyddu a rheoli'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar, proffesiynol a charedig a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu sefydledig ar waith i oruchwylio materion clinigol a gweithredol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a'u bod yn fodlon ar drefniadau rheoli'r sefydliad.

Cafwyd rhai ymatebion negyddol yn ein harolwg staff ac yn ystod ein cyfweiliadau â'r staff. Roedd yr ymatebion hyn yn ymwneud â'r ffaith nad oedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu hannog na'u cefnogi i godi pryderon, diffyg hyder y byddai'r sefydliad yn ymdrin â phryderon yn effeithiol, a'r ffaith nad oedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi na'u cefnogi ddigon. Rydym wedi gofyn i'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth hwn gan ganolbwyntio'n benodol ar y gydberthynas rhwng staff y ward a'r uwch-reolwyr.

Mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â diweddarau polisiau ac mae angen gwella'r broses o gynnal arfarniadau staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio staff i swyddi parhaol sy'n wag
- Parhau â'r ymdrechion i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad (PADR) rheolaidd.
- Diweddarau polisiau a gweithdrefnau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Tîm llawn cymhelliant sy'n canolbwyntio ar y cleifion
- Roedd y timau staff yn gydlynol ac yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad roeddent yn eu cael gan reolwyr y ward, dirprwyon a'r uwch-nyrs
- Sicrhau cydymffurfiaeth o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol
- Cydweithio da rhwng staff y ward a thimau cymunedol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd amrywiaeth o gyfleusterau ar gael i ward Talygarn er mwyn helpu i ddarparu therapiau a gweithgareddau i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i'r cleifion yr oedd ganddynt awdurdod i adael yr ysbyty fynd allan i'r gymuned.

Roedd meddyg teulu, gwasanaethau deintyddol a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill ar gael i'r cleifion, fel y bo angen. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol.

Roedd gwybodaeth am hybu iechyd a bwyta'n iach i'w gweld yng nghynlluniau gofal unigol y cleifion.

Cynhelir cyfarfodydd â'r cleifion i roi gwybodaeth iddynt am unrhyw apwyntiadau allanol, ac am y gweithgareddau sydd wedi'u trefnu ar gyfer y diwrnod.

Gwelsom enghreifftiau o'r cleifion a'r staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod yr arolygiad. Roedd y staff therapi galwedigaethol hefyd yn cynnig rhai gweithgareddau i'r cleifion. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y cymorth ariannol sydd ar gael i brynu adnoddau i'r cleifion yn gyfyngedig. Roedd hyn yn cynnwys diffyg cyllid i brynu cynhwysion ar gyfer therapiau coginio, ac nid oedd grwpiau brechwast yn cael eu cynnal mwyach oherwydd diffyg cyllid.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y ward ei hariannu'n briodol er mwyn i'r staff allu prynu adnoddau i hwyluso gweithgareddau i'r cleifion.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom fod pob cyflogai yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd hyn yn cynnwys staff y ward, uwch-reolwyr a staff gweinyddol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon yr oedd y cleifion yn eu codi. Roedd hyn yn dangos agweddau ymatebol a gofalgarn gan y staff tuag at y cleifion. Fodd bynnag, ar adegau, roedd y

ward yn brysur, ac ar adegau o'r fath, nodwyd nad oedd y staff yn gallu ymateb i rai o geisiadau ac ymholiadau'r cleifion.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

“Mae'r staff yn hyfryd”, a dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod yn cael gofal da gan y staff.

Roedd y mynedfeydd i'r ward wedi'u cloi ac roedd system intercom ar y ward yn atal unrhyw achosion o fynediad heb awdurdod.

Roedd naw ystafell wely unigol, yr oedd gan ddwy ohonynt doiled, sinc a chawod en-suite. Yn ogystal, roedd dwy ystafell gysgu rhywedd-benodol â phedwar gwely yr un a dwy ystafell gysgu rhywedd-benodol â dau wely yr un. Roedd ardaloedd y gwelyau yn yr ystafelloedd cysgu a rennir wedi'u gwahanu gan lenni.

Roedd y ward yn cynnig gofal rhywedd-gymysg a all o bosibl fod yn heriol o ran agweddau ar ofal ag urddas. Felly, roedd yn galonogol gweld bod y staff yn wybodus a bod camau diogelu a phrosesau effeithiol ar waith i reoli'r heriau hyn er mwyn sicrhau gofal ag urddas. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol; gan fod cymysgedd o ystafelloedd dau wely ac ystafelloedd cysgu pedwar gwely, nid yw hyn yn adlewyrchu darpariaeth gofal iechyd meddwl fodern oherwydd gall ystafelloedd gwely a rennir effeithio ar breifatrwydd ac urddas y cleifion.

Soniodd yr uwch-reolwyr am gynigion i symud Talygarn i ysbyty newydd ond roedd y cynlluniau hyn wrthi'n cael eu trafod o hyd ac nid oeddent wedi cael eu cymeradwyo.

Roedd cyfarpar ymarfer corff awyr agored wedi cael ei osod ers yr arolygiad diwethaf, ac roedd ffens berimedr hefyd wedi cael ei chodi a oedd yn rhoi rhywfaint o breifatrwydd i'r cleifion wneud ymarfer corff. Fodd bynnag, ar noson gyntaf yr arolygiad, nodwyd bod bagiau gwastraff clinigol, matras a gwaelod gwely wedi cael eu gadael yn yr ardal hon. Gwnaed trefniadau ar unwaith i symud yr eitemau hyn ar noson gyntaf yr arolygiad.

Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer pob eitem personol er mwyn sicrhau diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o ffonau symudol personol. Roedd ffôn ar gael yn yr ysbyty i'r cleifion gysylltu â ffrindiau a theulu os oedd angen.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

Gwybodaeth i gleifion

Nodwyd mai prin oedd y wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn yr ysbyty i helpu'r cleifion a'u teuluoedd i ddeall eu gofal. Nid oedd unrhyw fanylion i'w gweld am sefydliadau a all roi help a chymorth i gleifion a theuluoedd y mae cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio arnynt.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i'w darllen am rôl AGIC a sut y gall cleifion gysylltu â'r sefydliad. Mae hyn yn ofynnol yn ôl Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Dywedodd y staff wrthym fod gwybodaeth am eiriolaeth a rhwydweithiau cymorth eraill ar gael, ond nid oedd y wybodaeth hon wedi'i harddangos i'r cleifion nac aelodau'r teulu ei gweld.

Cafodd y tîm arolygu wybod gan y staff fod yr holl wybodaeth briodol ar gael, ond fod y wybodaeth wedi cael ei thynnu gan glaf yn ystod digwyddiad a bod y staff wrthi'n trefnu i bosteri newydd gael eu gosod.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth i gleifion yn gyfredol ac yn berthnasol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir sylw penodol i ba wybodaeth a gaiff ei harddangos. Rhaid i'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos fod yn berthnasol i'r cleifion ac ymwelwyr.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod cyfarfodydd cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod y nyrsys a'r tîm iechyd galwedigaethol yn gyfrifol am arwain y cyfarfodydd hyn.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

O safbwynt cynllunio gofal ac arferion yn yr ysbyty, roedd pwyslais clir ar adsefydlu gyda gofal cleifion wedi'i deilwra at yr unigolyn wedi'i ategu gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd gan y cleifion eu cynllunydd gweithgareddau wythnosol eu hunain, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (os oeddent wedi cael yr awdurdod priodol i wneud hynny).

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn llawn mewn adolygiadau aml-ddisgyblaethol misol.

Amserol

Gofal Amserol

At ei gilydd, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal amserol yn ystod eu hamser ar y ward. Roedd anghenion y cleifion yn cael eu hasesu'n brydlon adeg eu

derbyn, a gwelsom aelodau o'r staff yn helpu'r cleifion pan ofynnwyd iddynt wneud hynny.

Roedd y ward yn cynnal cyfarfodydd dyddiol bob bore a oedd yn cynnig cyfle digonol i gadarnhau'r lefelau defnydd gwelyau, y trefniadau arsylwi, y lefelau staffio ac unrhyw faterion a oedd yn dod i'r amlwg neu a oedd wedi newid mewn perthynas â chleifion.

Roedd aciwtedd a lefelau dibyniaeth y cleifion a oedd yn cael gofal ar y ward yn amrywio. Roedd unigolion a dderbyniwyd yn ddiweddar yr oedd ganddynt anghenion gofal iechyd meddwl aciwt, a chleifion y penderfynwyd eu bod yn addas i'w rhyddhau ac a oedd yn aros i gael eu lleoli neu i wasanaethau gofal eraill yn y gymuned gael eu rhoi ar waith ar eu cyfer.

Nodwyd gennym fod systemau digonol ar waith ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod oedi wrth ryddhau rhai o'r cleifion, yn bennaf oherwydd diffyg darpariaeth gofal cymdeithasol addas. Mae'r diffyg capasiti gofal cymdeithasol sy'n arwain at achosion o oedi wrth ryddhau cleifion yn her genedlaethol. Yn ystod y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu ac o'r cyfweiliadau â staff, nodwyd bod y bwrdd iechyd yn gwneud ymdrechion i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a chomisiynwyr er mwyn ceisio dod o hyd i ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas y gellid ei defnyddio er mwyn gallu rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol, ond roedd argaeledd darpariaeth o'r fath a chyfyngiadau ariannol yn arwain at achosion o oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd, yr awdurdod lleol a'r comisiynwyr barhau i gydweithio gan anelu at sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd gadarnhaol.

Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd sensitif ac yn cymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, gan ddefnyddio iaith briodol.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael help gan gyrrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo'n bosibl, roedd eu teuluoedd a'u gofalthwyr yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod trefniadau da ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) a nodwyd gennym fod y sampl honno yn cynnwys y ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. Roedd hyn yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi cael eu hyrwyddo a'u diogelu fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob claf, a dywedwyd wrthym fod eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm aml-ddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol eu gwirio a'u goruchwyllo'n gadarn.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am help pe bai angen. Roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael o gwmpas yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion, fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pe bai angen.

Roedd amrywiaeth o bolisiau iechyd a diogelwch cyfredol ar gael ac roedd amrywiaeth o asesiadau risg wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriad wythnosol a oedd yn cael ei gynnal gan reolwr y ward. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo bod angen gwneud gwelliannau pellach i ddarparu amgylchedd mwy diogel i gleifion a staff.

Roedd ôl traul ar y ward ac roedd angen ei hailaddurno. Nid oedd llawer o ardaloedd storio ar gael a oedd yn gwneud i'r ward deimlo'n gyfyng ac yn anniben. Gwnaethom nodi sawl mater o ran y gwaith addurno a'r amgylchedd yr oedd angen rhoi sylw iddynt:

- Mae'r goleuadau ym mhob rhan o'r ward yn wael ac mae angen eu moderneiddio a gosod goleuadau newydd
- Mae angen gosod sgrin newydd yn lle'r sgrin ar y swyddfa nyrsio gan ei bod hi'n anodd i'r staff nyrsio weld allan o'r swyddfa a bod graffiti arni.
- Mae llwydni ar lawr ystafell y cawodydd, mae staeniau ar fasnau gwaelod y cawodydd ac mae bylchau o'u hamgylch, mae tyllau yn y gorchudd ar y llawr o amgylch gwaelod y toiledau
- Mae hollt mawr yn y gwaith rendro ar y wal y tu allan i ddrws un o'r cleifion

- Mae angen cypyrddau a llawr newydd yn ystafell y staff er mwyn creu amgylchedd mwy croesawgar i'r staff
- Mae'r troli gweini bwyd wedi rhydu, felly hefyd hatsh gweini'r gegin. Mae bylchau yn y growt hefyd ac mae rhai o'r seliau silicôn wedi torri. Mae hyn yn creu problem o ran atal a rheoli heintiau wrth baratoi bwyd ac o ran sicrhau diogelwch bwyd
- Nid yw tiroedd yr ysbyty yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac mae sbwriel a bonion sigarêts ar y llawr. Yn gyffredinol, mae pob rhan o dir yr ysbyty yn ymddangos yn flêr. Mae darnau o gyfarpar segur wedi cael eu gadael yno sy'n creu amgylchedd digroeso i gleifion ac ymwelwyr.

Hefyd, dywedodd y staff wrthym nad oedd adran ystadau'r bwrdd iechyd bob amser yn ymateb mewn modd prydlon ac amserol pan oedd materion amgylcheddol yn cael eu codi. Gwelodd y tîm arolygu hefyd ddogfennaeth a oedd yn dangos bod llawer o'r materion amgylcheddol uchod wedi cael eu codi gan y staff ac wedi cael eu huwchgyfeirio at y bwrdd iechyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol uchod a'u datrys mewn modd prydlon ac amserol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Edrychodd aelodau'r tîm arolygu ar amgylchedd yr ysbyty wrth iddynt gael eu tywys o amgylch yr ysbyty ar y noson gyntaf ac yn ystod diwrnodau eraill yr arolygiad. Yn ôl arsylwadau'r arolygwyr, nid oedd pob rhan o'r ward yn darparu amgylchedd glân i'r cleifion. Roedd hyn oherwydd:

- Roedd llwch a malurion i'w gweld yn lolfeydd y cleifion ac ar lawr y gegin
- Roedd arogleuon annymunol yng nghiwbiau'r cawodydd ac yn yr ystafell gysgu â phedwar gwely
- Mae angen gosod gorchudd llawr newydd ym mhob rhan o'r ward yn lle'r rhannau sydd wedi rhwygo, er mwyn atal peryglon a'r risg o haint
- Nid oedd deunyddiau COSHH fel glanedyddion golchi dillad yn cael eu storio mewn cwpwrdd wedi'i gloi yn yr ystafell golchi dillad.

Yn ôl pob tebyg, roedd systemau ar gyfer cynnal archwiliadau rheolaidd mewn perthynas â rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliadau a welsom yn adlewyrchu'r materion a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad, fel y'u nodir uchod. O ganlyniad, yn seiliedig ar y canfyddiadau uchod, byddem yn amau effeithiolrwydd yr archwiliadau amgylcheddol a'r archwiliadau glanhau a'r

trefniadau ar gyfer goruchwylio'r archwiliadau hynny. Yn ogystal, nid oedd yr archwiliadau glanhau a welsom yn ystod yr arolygiad yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer glanhau'r lloriau.

Mae angen i'r bwrdd iechyd wella ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a goruchwylio'r gweithgarwch archwilio hwn drwy gynnal sesiynau goruchwylio neu hapwiriadau er mwyn cadarnhau a yw'r wybodaeth a gaiff ei chofnodi yn yr archwiliadau yn cynnig disgrifiad cywir o'r amgylchedd.

Yn ogystal, rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r rhestr wirio bresennol sy'n rhan o'r archwiliad glanhau amgylcheddol er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys pob rhan o'r ward y mae angen ei glanhau.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiâu a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd staff y ward yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy'r fewnwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y ward eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Yn ystod yr arolygiad, codwyd mater diogelu, ac roedd yn gadarnhaol gweld y staff yn cysylltu â'r awdurdod lleol ac yn rhoi'r mesurau diogelu perthnasol ar waith i amddiffyn y claf dan sylw a chleifion eraill ar y ward.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell feddyginiaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr. Fodd bynnag, roedd rhai bylchau lle nad oedd gwiriadau tymheredd wedi'u cofnodi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n gyson.

Ar y cyfan, roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Mae'r ward yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan yr adran fferylliaeth sy'n cynnal archwiliadau rheolaidd o'r stoc a meddyginiaethau unigol. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod meddyginiaeth temazepam yr oedd y dyddiad defnyddio arni wedi mynd heibio yn y cabinet cyffuriau a reolir.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaethau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio eu gwaredu'n briodol.

Nid oedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) a welsom bob amser wedi'u cwblhau'n llawn. Mewn rhai cofnodion, nid oedd y statws cyfreithiol wedi'i gwblhau, ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth am statws cyfreithiol y claf a'r dyddiadau cadw ar goll.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau MAR yn cael eu cwblhau'n llawn.

Roedd y staff yn wybodus ac yn hyderus wrth roi meddyginiaeth. Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn glir eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheolaidd o gyfarpar dadebru. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Ymddygiad heriol

Disgrifiwyd strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Dywedwyd wrthym fod technegau ataliol yn cael eu defnyddio a lle bo angen, byddai'r staff yn arsylwi ar y cleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn achosi pryder.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod y cleifion yn cael eu hatal yn gorfforol mewn ffordd ddiogel, ond nad oedd hynny'n digwydd yn aml a dim ond pan fetho popeth arall. Roedd unrhyw ddefnydd o ddulliau atal yn cael ei ddogfennu. Cadarnhaodd y wybodaeth a gyflwynwyd i'r tîm arolygu fod y data ar achosion o atal yn isel. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn defnyddio sgiliau llonyddu effeithiol gyda'r cleifion ac roedd yn amlwg bod y staff yn fedrus iawn yn y maes hwn.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar system rhoi gwybod am ddigwyddiadau'r bwrdd iechyd (DATIX).

Roedd hierarchaeth ar gyfer cymeradwyo digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu llunio a'u hadolygu'n rheolaidd fel y gellid adolygu a dadansoddi faint o ddigwyddiadau oedd yn codi. Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol â'r staff.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol eu gwirio, eu dadansoddi a'u goruchwyllo.

Nodwyd gennym nad oes llawer o gymorth seicolegol ar gael i'r cleifion ar y ward. Roedd y farn hon yn seiliedig ar y cofnodion cleifion a welsom, a'r trafodaethau a gawsom â'r staff. Mae'r ffaith nad yw anghenion cleifion yn hyn o beth yn cael eu diwallu yn achos pryder.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried y cymorth seicolegol sydd ar gael i'r cleifion a gwneud gwelliannau.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Roedd cyfrinair ar y system electronig er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac achosion o dor-cyfrinachedd. Gwnaethom ddefnyddio'r system drwy gydol yr arolygiad. Roedd yn anodd i ni ei deall, ac o ganlyniad, codwyd pryderon ynghylch gallu staff dros dro neu staff asiantaeth i gael gafael ar wybodaeth berthnasol a phriodol.

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Maeth a hydradu

Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion deietegol. Fodd bynnag, yn ystod y cyfweiliadau â'r staff, dywedwyd wrthym fod y Therapydd Lleferydd ac laith (SALT) yn cwblhau ymgynoriadau â chleifion dros y ffôn ac nad oedd wedi ymweld â'r cleifion ar y ward ers peth amser. Mae'n bwysig bod y Therapydd Lleferydd ac laith yn dod i'r ward ac yn cyfarfod â'r cleifion er mwyn sicrhau bod anghenion pob claf yn cael eu diwallu, a bod y staff yn gwbl ymwybodol sut i ofalu amdanynt a sut i fodloni gofynion maeth penodol y cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Therapydd Lleferydd ac laith yn dod i'r ward i weld y cleifion wyneb yn wyneb.

Roedd y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd. Gwelsom fod bwydlen amrywiol i'w gweld, a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael dewis beth i'w fwyta. Roedd diodydd a byrbrydau ar gael drwy gydol y dydd.

Roedd cegin fach ar gael i'r cleifion er mwyn iddynt wneud diodydd poeth neu oer, ond roedd y peiriant diodydd poeth wedi torri ac nid oedd wedi'i drwsio ar adeg yr arolygiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y peiriant diodydd poeth ei drwsio neu y caiff peiriant newydd ei ddarparu.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol pum claf.

Gwelsom fod pob claf yn cael ei gadw'n gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth a bod dogfennaeth dda yn cael ei chadw. Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal pum claf a gwelsom fod angen gwneud gwelliannau.

Nid oedd rhai o'r cofnodion yn y cynlluniau gofal yn gynhwysfawr ac roedd diffyg cysondeb cyffredinol o ran ansawdd y cofnodion.

Nid oedd cofnodion cynlluniau gofal y cleifion yn cael eu hasesu a'u monitro'n rheolaidd gan y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaeth ac er mwyn nodi, asesu a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â gofal diogel i gleifion. Nid oedd rhai o'r asesiadau risg yn gyfredol nac yn ddigon cynhwysfawr i alluogi aelod o'r staff nad yw'n adnabod y claf i fod yn gwbl ymwybodol o'r risgiau.

Byddai hyn yn peri pryder penodol i aelod o staff asiantaeth neu aelod o staff anghyfarwydd a oedd yn gweithio ar y ward am y tro cyntaf. Byddai'n anodd iawn i'r aelod hwnnw o staff ddeall ymddygiad y cleifion a'r camau priodol i'w cymryd i reoli'r ymddygiad hwnnw.

Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan ein proses sicrwydd ar unwaith, y mae modd dod o hyd i'r manylion yn Atodiad B.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o bum ymateb gan aelodau o staff yn y lleoliad. Gwnaethom hefyd siarad ag aelodau o'r staff yn ystod yr arolygiad.

Nododd y cyfweiliadau â'r staff, ac adborth o'r arolwg staff, nad oedd y staff yn teimlo'n hyderus y byddai'r tîm rheoli yn ymdrin â phryderon difrifol pan fyddent yn eu codi.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Tîm rheoli anghefnogol nad yw'n ymdrin â phryderon difrifol”.

“Nid yw'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi na'u cefnogi”.

Cydnabyddir bod cyfraddau cwblhau'r arolwg staffio yn isel, ond dylai'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth hwn a myfyrio arno a nodi sut y gall feithrin cydberthnasau rhwng staff y ward a'r uwch-reolwyr. Mae angen i'r bwrdd iechyd hefyd feithrin a datblygu hyder ac ymddiriedaeth yn y grŵp staffio, drwy ddangos yr ymdrinnir yn briodol â phryderon difrifol a gaiff eu codi.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y shifft nos.

Rheolwr y ward oedd yn gyfrifol am reoli'r ward o ddydd i ddydd, gyda chymorth dirprwy reolwr y ward. Roedd yr uwch-nyrs yn cefnogi rheolwr y ward.

Roedd staff y ward yn dangos arweinyddiaeth glir, ymroddedig a brwdfrydig, ac yn cael eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol wardiau ymrwymedig ac uwch-reolwyr y bwrdd iechyd. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y rhan fwyaf o'r cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod ein hamser ar y ward, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol a oedd yn cynnwys cydberthnasau da rhwng y staff y nodwyd gennym eu bod yn cydweithio'n dda fel

tîm. Roedd yn amlwg bod y staff yn anelu at ddarparu lefelau uchel o ofal i'r grwpiau cleifion, i'w helpu i wella'n gyflymach ac i leihau hyd eu harhosiad yn yr ysbyty. Roedd cydweithio agos a chynhyrchiol â'r timau iechyd meddwl cymunedol yn cefnogi hyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn sôn yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth yn yr ysbyty a chan uwch-reolwyr yng nghyfarwyddiaeth iechyd meddwl y bwrdd iechyd. Roedd y rhan fwyaf o'r staff hefyd yn canmol y cymorth gan gydweithwyr a oedd yn gweithio yn yr ysbyty, gan gyfeirio at ethos da o weithio fel tîm yn yr ysbyty.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi cael adolygiadau perfformiad ac arfarnu ffurfiol wedi'u dogfennu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd a bod adolygiadau perfformiad ac arfarnu yn cael eu cynnal.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd yr aelodau o staff y gwnaethom gyfweld â nhw yn llawn brwdfrydedd wrth sôn am eu rolau. Gwelsom enghreifftiau cadarn o unigolion yn gweithio fel tîm, ac ymdeimlad bod pob aelod o'r staff yn cyd-dynnu, drwy gydol yr arolygiad.

Roedd y staff yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o'r dogfennau y gofynnodd y tîm arolygu amdanynt mewn ffordd brydlon ac amserol, sy'n dangos bod systemau llywodraethu da ar waith yn yr ysbyty.

Rhoddwyd amrywiaeth o bolisiau i ni. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu diweddarau, ond nid oedd y polisiau canlynol yn gyfredol:

- Dyddiad adolygu'r polisi rheoli meddyginiaethau - Hydref 2022
- Dyddiad adolygu'r protocol tawelyddu cyflym - Tachwedd 2023
- Dyddiad adolygu'r polisi ymarfer cyfyngol - Medi 2019
- Dyddiad adolygu'r canllawiau PPE - Ionawr 2024

- Dyddiad adolygu'r polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol - Tachwedd 2021.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisïau eu hadolygu a'u diweddarau.

Gwelsom fod nifer o swyddi gwag yn yr ysbyty yr oedd y bwrdd iechyd yn ceisio eu llenwi. Roedd staff banc neu staff asiantaeth yn cyflenwi er mwyn llenwi bylchau staffio, ac roedd yr aelodau hynny o staff fel arfer yn gyfarwydd â'r grŵp cleifion. Roedd materion staffio yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod trosglwyddo boreol, ac roedd rheolwr y ward yn bwrw golwg dros y rotas yn rheolaidd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff swyddi gwag eu llenwi ac y caiff mentrau eu hystyried yn y dyfodol er mwyn annog pobl i weithio yn yr ysbyty.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion, ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Gwelsom fod gwybodaeth ar gael am y Ddyletswydd Gonestrwydd, ond nid oedd rhai aelodau o'r staff yn siŵr a oeddent wedi cael hyfforddiant. Er gwaethaf hyn, dangosodd y staff eu bod yn deall proses y Ddyletswydd Gonestrwydd yn ystod cyfweiliadau a thrafodaethau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd ac y caiff pob aelod o staff hyfforddiant priodol.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 ar y wardiau.

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff ei fanylion mewngofnodi ei hun i'r cyfrifiaduron er mwyn helpu i gynnal prosesau llywodraethu gwybodaeth. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth. Roedd yr ystadegau hyfforddiant yn dangos lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth ymhlith y staff, sef 86 y cant.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd rheolwr y ward a'r dirprwyon yn gymharol newydd i'w swyddi ac wrth gyfnewid â nhw, roedd yn gadarnhaol clywed am fentrau roeddent wrthi'n eu cynllunio a'u rhoi ar waith ar gyfer y dyfodol. Roedd grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu i ystyried sut y gellid gwella'r prosesau ar gyfer gweithgareddau archwilio a phrosesau clinigol.

Roedd cynlluniau ar waith i roi hyfforddiant ychwanegol i'r staff ar gwympiadau, ac roedd hyfforddiant ar anhwylderau personoliaeth, tynnu gwaed a sgiliau therapiwtig clinigol yn cael ei drefnu i'r staff cymorth gofal iechyd.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y staff yn gallu disgrifio sut mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â phartneriaid i ddarparu gofal cleifion a rhoi datblygiadau ar waith. Dywedwyd wrthym eu bod yn ymgysylltu ag asiantaethau partner allanol, gan gynnwys awdurdodau lleol, meddygon teulu, tai a gwasanaethau iechyd cymunedol er mwyn sicrhau dull systemau cyfan o ddarparu gofal cleifion.

Dywedwyd wrthym fod yr uwch-staff yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd ag asiantaethau i drafod materion a meithrin cydberthnasau gwaith cadarn.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwastraff clinigol, matras gwely a gwaelod gwely yn yr ardal ymarfer corff awyr agored.	Perygl a mater sy'n effeithio ar ddiogelwch.	Tynnwyd sylw uwch-aelodau o'r staff at y mater ar unwaith.	Symudwyd yr eitemau.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ward Talygarn - Ysbyty'r Sir

Dyddiad yr arolygiad: 5 - 7 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
--	--------------------	-----------------------------------	---------------------	----------

<p>Canfyddiad - Rheoli cofnodion / Cynllunio Gofal</p> <p>Edrychodd y tîm arolygu ar y wybodaeth a oedd ar gael yn y cofnodion gofal cleifion ar Ward Talygarn. Gwnaethom edrych ar bum set o gofnodion cleifion ac yn un set o nodiadau cleifion, nodwyd y canlynol gennym:</p> <ul style="list-style-type: none"> Prin oedd y wybodaeth am y claf a oedd wedi'i chofnodi ar y system electronig (WCCIS) 	<p>Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol</p>	<p>Aeth rheolwr y ward ati ar unwaith i ddiweddarau cofnodion pob claf.</p> <p>Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn adolygu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth pob claf yn ystod y rownd wythnosol o'r ward. Ymdrinnir ag unrhyw anghysondebau / hepgoriadau drwy'r broses hon.</p> <p>Bydd y broses archwilio a nodir isod yn nodi themâu dysgu i'r Uwch-nyrs a gaiff eu hystyried drwy sesiynau goruchwylio clinigol â'r uwch-arweinydd proffesiynol</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Tîm Amlddisgyblaethol</p> <p>Uwch-nyrs, Meddyg Ymgynghorol, Therapydd</p>	<p>Wedi'i gwblhau 07/02/24</p> <p>Wedi'i gwblhau 08/02/24</p> <p>Mawrth 2024</p>
---	--	---	--	--

<ul style="list-style-type: none"> • Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod asesiad risg WARRN wedi cael ei ddiweddarau i ddangos bod y claf wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty • Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod asesiad ffurfiol wedi cael ei gynnal o gyflwr meddwl y claf na'i anghenion ar y pryd • Prin oedd y wybodaeth ar y ffurflen dderbyn Felyn ac nid oedd y rhestr wirio wedi'i dechrau • Nid oedd unrhyw dystiolaeth o waith cynllunio gofal cyfredol i ymdrin â risgiau ac anghenion yr unigolyn • Yn ogystal, roedd yr unigolyn hwn wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiad nos Lun. Ymdriniodd staff y ward â'r digwyddiad, ond ni luniwyd cynllun gofal i ymdrin â'r risg bosibl i'r unigolyn ac i gleifion eraill ar y ward. 		<p>priodol.</p> <p>Yn dilyn grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer lechyd Meddwl Oedolion, cafodd y pecyn derbyn safonedig ei ddiweddarau a'i gymeradwyo i'w ddefnyddio yn un o gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Gyfarwyddiaeth, ac mae bellach ar waith ar bob ward.</p> <p>Caiff hyn ei fonitro drwy gyfarfod Rheolwyr Ward y Gyfarwyddiaeth.</p> <p>Caiff yr adnodd archwilio ei ddefnyddio i sicrhau cyflawnder ac ansawdd yr holl gofnodion cleifion eraill ar WCCIS.</p> <p>Caiff yr adnodd archwilio ei rannu â rheolwyr wardiau eraill gyda'r bwriad o sicrhau bod yr adnodd ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaethau lechyd Meddwl Oedolion. Caiff ei ddefnyddio unwaith yr wythnos a'i drafod bob mis â'r Uwch-nyrsys (gweler isod).</p> <p>Caiff yr archwiliadau uchod eu trafod</p>	<p>Galwedigaethol Arweiniol, Seicolegydd. Cadeirydd, cyfarfod Rheolwyr Wardiau.</p> <p>Rheolwr y Ward a'r Dirprwy/Dirprwyon</p> <p>Rheolwyr Wardiau, Nyrs Arweiniol y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Yn barhaus o 08/02/24</p> <p>Yn barhaus o 08/02/24</p> <p>Mawrth 2024</p> <p>13/03/24</p>
--	--	---	--	--

<p>Yn seiliedig ar y canfyddiadau uchod, ni chawsom sicrwydd bod prosesau archwilio sefydledig ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu dilyn gan y staff ar Ward Talygarn er mwyn cadw'r cleifion yn ddiogel. Felly, mae angen cymryd camau i sicrhau y caiff cofnodion pob claf eu hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gyfredol, ac i sicrhau y caiff proses archwilio ei rhoi ar waith i fonitro'r mater yn y dyfodol.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y caiff cofnodion pob claf eu cwblhau, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu dilyn fel y bwriadwyd gan y staff. Yn ogystal, mae angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am ba brosesau a systemau archwilio a gaiff eu rhoi ar waith i fonitro cofnodion cleifion yn barhaus.</p>		<p>bob mis er mwyn nodi tueddiadau/themâu ac anghenion hyfforddi/cyfleoedd dysgu posibl.</p> <p>Bydd yr archwiliadau yn cael eu cynnwys yng nghyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Gyfarwyddiaeth, a chyflwynir gwybodaeth i gyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion yr Is-adran er mwyn gallu nodi unrhyw gyfleoedd dysgu i'r Is-adran gyfan.</p>	<p>Rheolwr y Ward, Uwch-nyrs</p> <p>Nyrs Arweiniol a Dirprwy Nyrs Arweiniol y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>07/03/24</p>
--	--	---	--	-----------------

--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Nadine Gould

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Is-adrannol Interim

Dyddiad: 16/02/2024

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Talygarn - Ysbyty'r Sir

Dyddiad yr arolygiad: 5 - 7 Chwefror 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Diffyg cyllid ar gyfer gweithgareddau galwedigaethol a chyfarpar i gleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y ward ei hariannu'n briodol er mwyn i'r staff allu prynu adnoddau i hwyluso gweithgareddau i'r cleifion.	Mae cronfa Arian Mân o £50 ar gael i Ward Talygarn brynu eitemau er mwyn gallu darparu gweithgareddau galwedigaethol a chyfarpar. Gellir defnyddio'r arian hwn fel y bo'n ofynnol a chaiff y defnydd ohono ei fonitro gan Reolwr y Ward.	Rheolwr y Ward a'r Uwch-Nyrs	Wedi'i gwblhau
		Mae cyfrif cronfeydd elusennol ar gael i Ward Talygarn a gaiff ei reoli gan yr Uwch-nyrs, ac mae cronfa Therapi Galwedigaethol ganolog ar gael iddi hefyd a gaiff ei rheoli gan yr adran Therapi Galwedigaethol.	Uwch-nyrs Therapydd Galwedigaethol Arweiniol	Wedi'i gwblhau

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Nid oedd unrhyw fanylion i'w gweld am sefydliadau a all roi help a chymorth i gleifion a theuluoedd y mae cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio arnynt.</p> <p>Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i'w darllen am rôl AGIC a sut y gall cleifion gysylltu â'r sefydliad.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth i gleifion yn gyfredol ac yn berthnasol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir sylw penodol i ba wybodaeth a gaiff ei harddangos. Rhaid i'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos fod yn berthnasol i'r cleifion ac ymwelwyr.</p>	<p>Mae'r ward wrthi'n cael ei hailaddurno ar hyn o bryd. Ar ôl cwblhau'r gwaith (erbyn diwedd mis Mawrth 2024) caiff y wybodaeth i gleifion ei harddangos eto, gan gynnwys lluniau o'r staff a'u henwau, gwybodaeth am y ward, y broses Gweithio i Wella, gwybodaeth am AGIC a gwasanaethau eirioli.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Ebrill 2024</p>
<p>Roedd oedi wrth ryddhau rhai o'r cleifion a hynny'n bennaf oherwydd diffyg darpariaeth gofal cymdeithasol addas.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol a'r comisiynwyr barhau i gydweithio gan anelu at sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol.</p>	<p>Bydd cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal â'r Awdurdodau Lleol ac adran Gomisiynu'r Bwrdd Iechyd er mwyn ystyried llwybrau cleifion - cyfarfodydd 117, Rowndiau Ward, cyfarfodydd i drafod yr Adnodd Cymorth Penderfynu (DST), cyfarfodydd y tîm amlldisgyblaethol a chyfarfodydd wythnosol ag Arweinydd yr Adran Gomisiynu.</p>	<p>Rheolwr y Ward, Uwch-nyrs, Rheolwr Gwella Gwasanaethau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cadarnhau y bydd yn parhau i weithio gyda BIPAB i sicrhau bod pobl yn cael asesiadau trylwyr a chadarn er mwyn gallu eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd amserol a diogel.</p> <p>Mae'r Is-adran yn cyflogi Rheolwr Tai sy'n gyfrifol am weithio gydag Awdurdodau Lleol a sefydliadau trydydd sector i gydgyssylltu mynediad at dai a llety. Mae'r cydgysylltydd llif cleifion hefyd yn rhan o'r tîm hwn ac yn gyfrifol am nodi rhwystrau sy'n atal y llif a chynllunio ar sail hynny.</p>	Adran Gomisiynu'r Bwrdd Iechyd	Parhau â'r gwaith monitro bob wythnos
		Caiff pob achos o oedi ei gofnodi drwy broses Oedi o fewn Llwybrau Gofal y Bwrdd Iechyd a'i uwchgyfeirio'n briodol drwy gyfarfodydd sicrwydd y	Arweinwyr o Awdurdod Lleol Torfaen ac Awdurdod Lleol Sir Fynwy	Caiff unrhyw achosion o Oedi o fewn Llwybrau Gofal eu cofnodi bob mis ar ddiwrnod

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion.		Cyfrifiad Cymru Gyfan
Roedd ôl traul ar y ward ac roedd angen ei hailaddurno. Nid oedd llawer o ardaloedd storio ar gael a oedd yn gwneud i'r ward deimlo'n gyfyng ac yn anniben. Gwnaethom nodi sawl mater o ran y gwaith addurno a'r amgylchedd yr oedd angen rhoi sylw iddynt:	Rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol uchod a'u datrys mewn modd prydlon ac amserol.			
<ul style="list-style-type: none"> Mae'r goleuadau ym mhob rhan o'r ward yn wael ac mae angen eu moderneiddio a gosod goleuadau newydd. 		Gosodwyd goleuadau newydd	Gwaith ac Ystadau	Wedi'i gwblhau
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen gosod sgrin newydd yn lle'r sgrin ar y swyddfa nyrsio gan nad yw'r staff nyrsio yn gallu gweld allan yn iawn a bod graffiti arni. 		Archebwyd sgrin ar gyfer y swyddfa nyrsio, yn ogystal ag arwydd croeso a gwell arwyddion.	Rheolwr Gwella Gwasanaethau	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 26/04/24

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Mae llwydni ar lawr ystafell y cawodydd, mae staeniau ar fasnau gwaelod y cawodydd ac mae bylchau o'u hamgylch, mae tyllau yn y gorchudd ar y llawr o amgylch gwaelod y toiledau. 		Llwydni ar lawr ystafell y cawodydd - Yr adran Cyfleusterau i weithredu drwy gynnal gwaith glanhau â stêm, gan gynnwys basnau gwaelod y cawodydd. Mae'r llwydni wedi afliwio'r deunydd selio. Cyflwynwyd cais i'r adran Gwaith ac Ystadau dynnu basn gwaelod y gawod a'i ailselio.	Rheolwr Cyfleusterau	Cwblhawyd y gwaith glanhau 20/03/24
		Caiff gorchudd llawr newydd ei osod yn y ddwy ystafell gawod fwy o faint.	Gwaith ac Ystadau	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 12/04/24
		Mae'r gwaith i osod gorchudd llawr newydd yng nghiwbiclau'r toiledau ac yn y ddwy ystafell gawod lai o faint yn mynd rhagddo.	Gwaith ac Ystadau	
<ul style="list-style-type: none"> Mae hollt mawr yn y gwaith rendro ar y wal y tu allan i ddrws un o'r cleifion 		Caiff yr hollt mawr yn y gwaith rendro ei drwsio.	Gwaith ac Ystadau	Wedi'i gwblhau

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen cypyrddau a llawr newydd yn ystafell y staff er mwyn creu amgylchedd mwy croesawgar i'r staff 		Caiff cwpwrdd pwrpasol ei adeiladu yng nghoridor yr Adran Gofal Ychwanegol er mwyn darparu mwy o fannau storio.	Gwaith ac Ystadau	Wedi'i gwblhau
		Mae'r gwaith i osod gorchudd llawr newydd ac i addurno ystafell y staff yn mynd rhagddo (i'w gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024). Caiff y gwaith i osod cypyrddau newydd yn y gegin ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol newydd drwy gyllid Cyfalaf Dewisol.	Gwaith ac Ystadau	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 26/04/24
<ul style="list-style-type: none"> Mae'r troli gweini bwyd wedi rhydu, felly hefyd hatsh gweini'r gegin. Mae bylchau yn y growt hefyd ac mae rhai o'r seliau silicôn wedi torri. Mae hyn yn creu problem o ran atal a rheoli heintiau wrth baratoi bwyd ac o ran diogelwch bwyd. 		Caiff troli gweini bwyd newydd ei brynu.	Rheolwr Cyfleusterau	Cafwyd cod cost gan dîm Cyfalaf y Bwrdd lechyd - dyddiad cwblhau amcangyfrifedig 02/05/24
		Caiff y growt a'r seliau silicôn eu trwsio.	Gwaith ac Ystadau	

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Nid yw tiroedd yr ysbyty yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda - mae sbwriel a bonion sigarêts ar y llawr. Yn gyffredinol, mae pob rhan o dir yr ysbyty yn ymddangos yn flêr. Mae darnau o gyfarpar segur wedi cael eu gadael yno sy'n creu amgylchedd digroeso i gleifion ac ymwelwyr 		<p>Bonion sigarêts - byddwn yn archebu blychau llwch i'w gosod yn sownd wrth y waliau gan yr adran Gwaith ac Ystadau, ar ôl cynnal asesiad risg gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â thân, trais ac ymddygiad ymosodol, dringo a phwyntiau clymu. (Noder: mae Therapi Amnewid Nicotin ar gael ar bob ward er mwyn helpu pobl i roi'r gorau i smygu os byddant am wneud hynny).</p>	Rheolwr y Ward	<p>Wedi'i gwblhau (Archebwyd 04/04/24 gan y Rheolwr Cyfleusterau)</p> <p>Codwyd archeb gwaith gyda'r adran Gwaith ac Ystadau - 96167</p> <p>Caiff blychau llwch eu cynnwys fel rhan o'r archwiliadau misol o'r iard</p>
		<p>Rydym bellach wedi trefnu cyfarpar i'r porthorion allu cwblhau gwaith casglu sbwriel ym mhob rhan o'r safle bob penwythnos, ar sail rota.</p>	Rheolwr Cyfleusterau	Wedi'i gwblhau
<p>Nid oedd pob rhan o'r ward yn darparu amgylchedd glân i'r cleifion. Roedd hyn oherwydd:</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r rhestr wirio bresennol sy'n rhan o'r archwiliad glanhau</p>			

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	amgylcheddol er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys pob rhan o'r ward y mae angen ei glanhau.			
<ul style="list-style-type: none"> Roedd llwch a malurion i'w gweld yn lolfeydd y cleifion ac ar lawr y gegin. 	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithgarwch archwilio yn cael ei gynnal drwy sesiynau goruchwyllo neu hapwiriadau er mwyn cadarnhau a yw'r wybodaeth a gaiff ei chofnodi yn yr archwiliadau yn cynnig disgrifiad cywir o'r amgylchedd.	Cafwyd gwared ar y llwch a'r malurion yn lolfeydd y cleifion a'r gegin. Bydd Rheolwr y Ward yn cynnal gwaith monitro fel rhan o'r gwiriadau dyddiol ac yn uwchgyfeirio unrhyw bryderon perthnasol at yr adran cyfleusterau.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 21/03/24
<ul style="list-style-type: none"> Roedd arogleuon annymunol yng nghiwbiclau'r cawodydd ac yn yr ystafell gysgu â phedwar gwely. 		Gofynnwyd i'r adran Gwaith ac Ystadau asesu'r arogleuon annymunol yng nghiwbiclau'r cawodydd a'r ystafell gysgu â phedwar gwely a chynnig datrysiadau	Gwaith ac Ystadau	Diwedd mis Mawrth 2024
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen gosod gorchudd llawr newydd ym mhob rhan o'r ward yn lle'r rhannau sydd wedi rhwygo, er mwyn 		Mae'r gwaith i osod gorchudd llawr newydd yn mynd rhagddo (i'w gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024)	Gwaith ac Ystadau	Wedi'i gwblhau

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
atal peryglon a'r risgiau o haint.				
Nid oedd deunyddiau COSHH fel glanedyddion golchi dillad yn cael eu storio mewn cwpwrdd wedi'i gloi yn yr ystafell golchi dillad.		Caiff deunyddiau COSHH eu cloi yn y cwpwrdd deunyddiau domestig a'u tynnu allan i'w defnyddio fel y bo angen.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
Roedd meddyginiaeth temazepam yr oedd y dyddiad defnyddio arni wedi mynd heibio yn y cabinet cyffuriau a reolir.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaethau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio eu gwaredu'n briodol.	Cafwyd gwared arni ar unwaith. Atgoffwyd y staff y dylid dychwelyd meddyginiaethau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio i'r fferyllfa cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd Rheolwr y Ward yn parhau i fonitro'r sefyllfa fel rhan o wiriadau wythnosol o'r cwpwrdd cyffuriau a reolir.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
Nid oedd rhai o'r siartiau MAR yn cynnwys gwybodaeth am statws cyfreithiol a dyddiadau cadw'r cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau MAR yn cael eu cwblhau'n llawn.	Tynnir sylw'r Cyfarwyddwr Is-adrannol Cynorthwyol ar gyfer Meddygon at y mater er mwyn gwneud yn siŵr y caiff yr holl siartiau MAR eu cwblhau'n llawn.	Uwch-ymarferydd Nyrzio	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd yr Uwch-ymarferydd Nyrsio yn archwilio'r siartiau MAR bob wythnos ac yn eu diwygio fel y bo angen. Caiff gwybodaeth ei chynnwys yn y diweddariad wythnosol i Reolwr y Ward, a rhoddir diweddariad bob mis i'r Uwch-nyrs, a fydd yn gwneud gwaith monitro er mwyn nodi unrhyw themâu. Rhoddir gwybod am unrhyw themâu drwy gyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Gyfarwyddiaeth.	Cyfarwyddwr Is-adrannol Cynorthwyol	Diwedd Ebrill 2024
		I'w gynnwys fel rhan o'r bwletinâu 'Top Tip Tuesday' er mwyn atgoffa pob rhan o'r Is-adran.	Adran Ansawdd a Diogelwch Cleifion	Diwedd mis Mawrth 2024
Nid oedd llawer o gymorth seicolegol o gwbl ar gael i'r cleifion ar y ward.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried y cymorth seicolegol sydd ar gael i'r cleifion a gwneud gwelliannau.	Mae 1.7 o Seicolegwyr Clinigol cyfwerth ag amser cyflawn, 1.0 Seicolegydd Cwnsela, 1.0 CAAP ac 1.0 Therapydd Seicolegol a Seicolegydd Cynorthwyol ar gael i Ward Talygarn. Cynigir 1.5 diwrnod o ddarpariaeth seicoleg i'r ward	Pennaeth Seicoleg, Iechyd Meddwl Oedolion	Wedi'i gwblhau

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>bob wythnos a ddefnyddir i gefnogi asesiadau aml-ddisgyblaethol ac asesiadau seicolegol arbenigol ar sail ad hoc, i ddarparu ymyriadau dwysedd isel, ac i ddarparu rhywfaint o gymorth i'r staff (gan gynnwys sesiynau goruchwyllo ac ymarfer myfyriol) fel y bo'n ofynnol. Bydd y tîm seicoleg yn parhau i gydgyssylltu â'r Uwch-nyrs a Rheolwr y Ward er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol y gellir gwneud ceisiadau unigol am fewnbwn seicolegol ac y caiff yr ymyriadau seicolegol dwysedd isel hygyrch eu diogelu.</p>		
<p>Roedd y Therapydd Lleferydd ac Iaith (SALT) yn cwblhau ymgynghoriadau â chleifion dros y ffôn ac nid oedd wedi ymweld â'r cleifion ar y ward.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Therapydd Lleferydd ac Iaith yn dod i'r ward i weld y cleifion.</p>	<p>Cam cyntaf y broses frysbenno ar gyfer therapi lleferydd ac iaith yw cwblhau proses sgrinio dros y ffôn er mwyn penderfynu a oes angen cynnal asesiad clinigol. Yn yr achos hwn, nid oedd angen cynnal asesiad clinigol a rhoddwyd cyngor priodol i'r staff.</p>	<p>Therapydd Lleferydd ac Iaith Arweiniol Proffesiynol (Oedolion aciwt)</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Roedd y peiriant diodydd poeth i'r cleifion wedi torri ac nid oedd wedi'i drwsio ar adeg yr arolygiad.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y peiriant diodydd poeth ei drwsio neu y caiff peiriant newydd ei ddarparu.	Archebwyd rhan newydd i'r peiriant. Rydym yn aros i'r rhan newydd gyrraedd (caiff y peiriant ei drwsio gan yr adran Gwaith ac Ystadau pan ddaw'r rhan).	Rheolwr y Ward	Dyddiad derbyn amcangyfrifedig 10/04/24
Roedd rhai bylchau lle nad oedd gwiriadau tymheredd o'r oergelloedd meddyginiaeth wedi'u cofnodi.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n gyson.	Caiff gwiriadau tymheredd eu cofnodi bob dydd. Atgoffir pob aelod o'r staff, gan gynnwys staff banc a staff asiantaeth. I'w gynnwys fel neges yn y cofnodlyfr trosglwyddo. (Mae hyn eisoes yn rhan o'r gwiriadau dadebru dyddiol).	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
		Bydd Rheolwr y Ward yn ei gynnwys fel rhan o'r archwiliad o'r cofnodion clinigol. Caiff gwybodaeth ei chynnwys yn y diweddariad wythnosol i Reolwr y Ward, a rhoddir diweddariad bob mis i'r Uwch-nyrs, a fydd yn gwneud gwaith monitro er mwyn nodi unrhyw themâu. Rhoddir gwybod	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		am unrhyw themâu drwy gyfarfod Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Gyfarwyddiaeth.		
Nododd sylwadau gan rai o'r staff nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi na'u gwerthfawrogi ac nad yw'r tîm rheoli yn ymdrin â phryderon difrifol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad yn nodi sut y bydd yn ymateb i rai o'r sylwadau a godwyd gan y staff yn yr holiaduron a gwblhawyd ganddynt.	Caiff arolwg staff ei gynnal ar Ward Talygarn er mwyn ystyried safbwyntiau'r staff, llesiant y staff a syniadau ar gyfer gwelliannau.	Nyrs Arweiniol ar gyfer lechyd Meddwl Oedolion	Arolwg i'w gyflwyno erbyn 12/04/24
		Mae'r ward wedi cynnal cyfarfod staff ers yr ymweliad ond ni chodwyd unrhyw bryderon. Rhoddwyd gwybod i'r staff y gallant godi unrhyw fater y tu allan i'r lleoliad hwn yn gyfrinachol.	Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward, Tîm y Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
		Mae aelodau'r Tîm Uwch-reolwyr Is-adrannol yn ymweld â wardiau a thimau o hyd yn ystod oriau arferol a'r tu allan i oriau arferol er mwyn	Tîm Uwch-reolwyr Is-adrannol, Cyfarwyddwr Is-adrannol	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cyfarfod â staff a chleifion, gwella trefniadau arweinyddiaeth a chynnig cyfleoedd i drafod eu gwaith, gan gynnwys unrhyw bryderon neu faterion. Caiff adborth ei rannu'n rheolaidd yn ystod cyfarfodydd y Tîm Uwch-reolwyr a chaiff themâu eu nodi er mwyn craffu arnynt a gweithredu lle bo angen.		
		Mae boddhad staff a gohebiaeth/gweithgarwch ymgysylltu yn eitem sefydlog ar agenda'r Tîm Uwch-reolwyr.	Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
		Trefnwyd Diwrnod 'Cwrdd i Ffwrdd' i'r Staff ym mis Mehefin 2024	Rheolwr y Ward/Uwch-nyrs	Mehefin 2024
Nid oedd pob aelod o'r staff wedi cael adolygiadau perfformiad ac arfarnu ffurfiol wedi'u dogfennu.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael adolygiadau perfformiad ac arfarnu o leiaf unwaith bob deuddeg mis.	Caiff lefelau cydymffurfiaeth o ran cynnal Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad eu gwella. Rheolwr y Ward/ Dirprwy i drefnu 1-2 adolygiad arfarnu a datblygu	Rheolwr y Ward	Caiff yr adolygiadau sy'n weddill eu cwblhau erbyn

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>perfformiad bob wythnos er mwyn sicrhau y caiff pob adolygiad sy'n weddill ei gwblhau o fewn y terfyn amser.</p> <p>(Mae saith ar ôl i'w cynnal, mae un aelod o staff ar gyfnod absenoldeb mamolaeth)</p>		diwedd mis Mai 2024
Nid oedd y polisiau canlynol yn gyfredol:	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisiau eu hadolygu a'u diweddarau.			
<ul style="list-style-type: none"> Dyddiad adolygu'r polisi rheoli meddyginiaethau - Hydref 2022 		Mae'r polisi wrthi'n cael ei ailysgrifennu. Yn y cyfamser, mae'r polisi presennol yn parhau'n weithredol.	Pennaeth Fferylliaeth, Gwasanaethau Gweithredol	Hydref 2024
<ul style="list-style-type: none"> Dyddiad adolygu'r protocol tawelyddu cyflym - Tachwedd 2023 		Mae'r polisi wrthi'n cael ei adolygu. Yn y cyfamser, mae'r polisi presennol yn parhau'n weithredol.	Dirprwy Bennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu)	Gorffennaf 2024

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Dyddiad adolygu'r polisi ymarfer cyfyngol - Medi 2019 		Mae'r polisi drafft wedi'i gwblhau. Caiff ymgynghoriad ei drefnu fel rhan o'r broses gymeradwyo.	Pennaeth Iechyd a Diogelwch, Dirprwy Bennaeth Ansawdd a Diogelwch Cleifion (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu)	Gorffennaf 2024
<ul style="list-style-type: none"> Dyddiad adolygu'r canllawiau PPE - Ionawr 2024 		Mae'r canllawiau PPE bellach yn rhan o Bolisi Rhagofalon Trosglwyddo'r Bwrdd Iechyd		Wedi'i gwblhau
<ul style="list-style-type: none"> Dyddiad adolygu'r polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol - Tachwedd 2021. 		Mae'r polisi wrthi'n cael ei adolygu.	Arbenigwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Diwedd mis Mai 2024 i'w gymeradwyo gan y panel EQIA a'r Grŵp Polisi

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Roedd nifer o swyddi gwag yn yr ysbyty.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff swyddi gwag eu llenwi, ac y caiff mentrau eu hystyried yn y dyfodol er mwyn annog pobl i ddod i weithio yn yr ysbyty.	Penodwyd dau weithiwr cymorth gofal iechyd cyfwerth ag amser cyflawn yn ddiweddar - mae'r dyddiadau dechrau wrthi'n cael eu cadarnhau.	Rheolwr y Ward	Dyddiadau dechrau i'w cadarnhau - mae'r gwiriadau cyn cyflogi yn mynd rhagddynt
		Cyflwynwyd 6 swydd cyfwerth ag amser cyflawn yn ddiweddar drwy'r broses Student Streamline.	Nyrs Arweiniol ar gyfer lechyd Meddwl Oedolion	Bwriedir cwblhau'r rhestr fer ar gyfer y swyddi hyn erbyn 03/05/24 yn unol â phroses Cymru gyfan
		Caiff hysbyseb dreigl ei chyflwyno ar gyfer swyddi Nyrsys lechyd Meddwl Cofrestredig Band 5	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rheolwr Ward Talygarn i fynychu diwrnodau Recriwtio Mewngymorth yn y Prifysgolion yng Nghymru	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
		Mae'r Gyfarwyddiaeth eisoes yn rhan o'r cynllun recriwtio canolog	Y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion	Wedi'i gwblhau
		Caiff pob aelod o staff heb gymhwyso ei hysbysu am y llwybr hyblyg at nyrsio (mae un yn bwriadu dechrau ym mis Medi ac mae dau wedi datgan diddordeb)	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth i ystyried syniadau eraill ar gyfer trawsnewid y gweithlu amlddisgyblaethol, gan gynnwys y potensial ar gyfer swyddi Band 4.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth ar gyfer lechyd Meddwl Oedolion	Parhaus
Nid oedd rhai o'r staff yn siŵr a oeddent wedi cael hyfforddiant ar broses y Ddyletswydd Gonestrwydd.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff eu hatgoffa am ofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd ac y caiff pob aelod o staff hyfforddiant priodol.	Cyhoeddwyd 'Top Tip Tuesday' yn sôn am y Ddyletswydd Gonestrwydd ac roedd ar gael i bob aelod o'r staff ei weld.	Arweinydd Ansawdd a Gwella	Wedi'i gwblhau
		Caiff y staff eu hannog i gwblhau hyfforddiant drwy'r Cofnodion Staff Electronig, a chaiff y ddolen ganlynol ei rhannu er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff yr Uned: Beth mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ei	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		olygu i'r GIG ac i'n Staff? (sharepoint.com)		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Nadine Gould

Teitl swydd: Nyrs Arweiniol Is-adrannol Interim, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad: 08/04/24